**ADRODDIAD Y PWYLLGOR BUSNES**

O dan Reol Sefydlog 13.1 (iii) mae gan y Pwyllgor Busnes y pŵer i wneud argymhellion i'r Cynulliad ar y ffordd y mae'n ymdrin â'i fusnes.

Mae holl aelodau'r Pwyllgor, ac eithrio Trefnydd y Cynulliad, yn credu y dylai'r Pwyllgorau Pwnc gyfarfod bob pythefnos, yn union fel y gwnaethant yn ystod y Cynulliad Cyntaf.

Yn ystod naw cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ers i'r Cynulliad ddychwelyd o Doriad yr Haf mae'r Pwyllgor wedi derbyn a chymeradwyo ceisiadau oddi wrth dri o'r saith pwyllgor pwnc i gynnal cyfarfodydd anffurfiol ychwanegol.

Dyma'r Pwyllgorau:

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes
Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Dymuna'r Pwyllgor gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cynulliad wrth iddo ystyried Datganiad yr Amserlen Gyfnodol.

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
Rhagfyr 2003